

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	1af o Hydref 2026
TEITL	Cynnal Priffyrdd – Gosod Marciau Ffordd
RHESWM DROS GRAFFU	Adolygiad o drefniadau
AWDUR	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC
AELOD CABINET	Y Cynghorydd June Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

Mae'r adroddiad yma yn cael ei gyflwyno gan fod y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn adolygu trefniadau gosod marciau ffordd.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Mae angen craffu'r pwyntiau isod:

- Addasrwydd trefniadau presennol ail-osod marciau ffordd
- Yr heriau sy'n effeithio gallu'r adran i gyrraedd gofynion rheoli priffyrdd sydd wedi eu hamlinellu o fewn y Llawlyfr Cynnal Priffyrdd
- Bwriad yr Adran i fuddsoddi mewn peiriannau i alluogi'r gwasanaeth ymgymryd â chanran uchel o waith marcio ffyrdd yn fewnol

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r trefniadau presennol ar gyfer cynnal ac ail-osod marciau ffordd yng Ngwynedd, ynghyd â'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth wrth geisio cyflawni ei gyfrifoldebau statudol a gweithredol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu i roi barn, sylwadau ac argymhellion ar y cynigion a amlinellir yn yr adroddiad, gan gynnwys y cynlluniau buddsoddi arfaethedig i gryfhau gallu'r gwasanaeth a gwella perfformiad wrth gynnal marciau ffordd ledled Gwynedd.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1 Cyfrifoldebau'r Adran

Mae gan yr adran gyfrifoldeb i reoli'r gwaith cynnal asedau priffyrdd sy'n cynnwys arwyddion a marciau ffordd. Mae'r cyfrifoldeb yma wedi ei amlygu o fewn ein Llawlyfr Cynnal Priffyrdd er mwyn sicrhau bod risgiau i ddefnyddwyr yn cael eu monitro a'u rheoli yn briodol.

Amlinellir o fewn y llawlyfr y mathau o ddiffygion a'r lefelau ymyrraeth a ddefnyddir. O fewn y rhestr fe welir fod 'Arwyddion hanfodol/marciau ffordd sydd ar goll/wedi torri/wedi erydu/wedi colli eu lliw' yn disgyn o fewn cyfrifoldeb gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Gall rhai o'r diffygion hyn fod yn achos o ddiffyg diogelwch ble mae gofyn i ymateb erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Gweler **Atodiad A** ar gyfer enghreifftiau o'r marciau ffordd sydd angen eu cynnal ar ein ffyrdd.

4.2 Trefniadau gwaith cyfredol

Mae rhaglen waith y gwasanaeth am y flwyddyn ar gyfer gwaith marcio ffordd yn cael ei llunio gan nifer o ffactorau sef:-

- Archwiliadau Diogelwch gan Arolygwr Ffordd - bydd yr amseroedd gweithredu yn ddibynnol ar gategori'r ffordd
- Trefniadau Arolygon Technegol
- Cwynion rydym yn dderbyn gan y cyhoedd. Cafwyd 281 o ymholiadau am Farciau neu Arwyddion Ffordd yn 2025/26.
- Gwaith ail-osod llinellau yn dilyn gwaith ail wynebu tar a chip
- Ceisiadau gan y Tîm Trafnidiaeth i ail osod baeau anabl a llinellau melyn sengl a dwbl.
- Ceir hefyd geisiadau gwaith i osod marciau o'r newydd gan y Tîm Trafnidiaeth.

Caiff y gwaith ei rannu i waith bychan a gwaith mawr. Ar hyn o bryd rydym yn ymateb i waith bychan drwy ein timau mewnol Cynnal Priffyrdd e.e. ail osod llinellau o fewn cyffordd a rhoi marciau melyn mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd. Trefnir ein gwaith yma trwy ein gweithlu mewnol sydd wedi eu hyfforddi i gario allan gwaith gosod marciau ffordd efo llaw (handlay). Ar hyn o bryd dim ond un cyfarpar sydd gennym er cyfarch gofynion yr holl sir.

Mae gwaith mawr yn disgyn o fewn y categori o fod angen peiriant pwrpasol i'w gwblhau. Ar hyn bryd nid oes gennym y peirannau yma ac felly yn ddibynnol ar gontractwyr allanol drwy'r gytundeb fframwaith. Dim ond dau gontractwr sydd ar y fframwaith i ymgymryd â'r math yma o waith ac oherwydd rhesymau pellter/prysurdeb mae trafferthion wedi bod yn rhaglennu'r gwaith angenrheidiol yma o fewn amser rhesymol. Mae'r cwmnïau yma yn gweithredu ar draws Gogledd Cymru ac yn cael eu comisiynu gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC) ac Awdurdodau Lleol eraill, ac felly rydym yn cystadlu am eu gwasanaeth.

Gall y tywydd hefyd fod yn ffactor i drefnu'r math yma o waith ac yn ychwanegu at yr her o raglennu gwaith yn amserol.

O fewn cyllideb cynnal priffyrdd mae swm o £132,000 wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith marciau ffordd ar gyfer 2026/27.

I grynhoi - mae'r ddibyniaeth ar gontractwyr allanol yn achosi oedi i'r rhaglen waith sydd yn golygu nad ydym bob tro yn cyfarfod trothwyon ein Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd. Gall hyn hefyd effeithio ar allu'r gwasanaeth gorfodaeth ffyrdd a strydoedd i reoli parcio.

Mae hefyd risgiau yn codi o beidio gweithredu ar amser drwy hawliadau yswiriant 3ydd parti yn deillio o ddiffygion diogelwch.

4.4 Camau i wella'r gwasanaeth

Cam 1

Ar gyfer gwaith mawr, rydym eisoes mewn trafodaethau gyda'r contractwyr allanol er mwyn gwella eu ymateb i'n ceisiadau am wasanaeth amserol.

Cam 2

Hyd yma rydym wedi buddsoddi mewn hyfforddi mwy o'n gweithlu mewnol cynnal ffyrdd i osod marciau ffyrdd efo llaw. Rydym yn barod wedi cymryd y penderfyniad i fuddsoddi mewn cyfarpar ychwanegol fel y gellir gweithredu ar drefn Gogledd a De. Bydd hyn yn sicrhau gwell ymateb a chael gwared â'r angen i symud y cyfarpar o un pen o'r sir i'r llall.

Cam 3

Datblygu cynllun busnes ar gyfer buddsoddi mewn cerbyd pwrpasol gan gyflwyno bid buddsoddi i arbed. Byddai buddsoddiad o'r fath yn gam cadarnhaol gan sicrhau gwelliant sylweddol er mwyn

- ymateb yn amserol i'r rhaglen waith ehangach
- lleihau ar y nifer cwynion
- sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn amserol i geisiadau i ail osod llinellau melyn dwbl a sengl
- cadw'r gwaith o fewn ein gweithlu mewnol gan weld llai o ddibyniaeth ar contractwyr allanol
- creu'r cyfle i ddenu incwm gan ACGChG (sydd eisoes wedi dangos cefnogaeth)
- creu y posibilrwydd o ddenu gwaith gan awdurdodau lleol cyfagos fel Ynys Môn a Chonwy.

Bydd y camau yma yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol sydd yn cyd-fynd ac egwyddor Gwynedd Effeithlon yng Nghynllun y Cyngor. Bydd yn gwella'r gwasanaeth i drigolion Gwynedd drwy allu ymateb yn gynt i ddiffygion a thrwy hynny byddwn yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog.

4.5 Monitro Effaith y Camau Gweithredu

Er mwyn sicrhau ein bod yn monitro'r ffordd newydd yma o weithio byddwn yn creu mesur perfformiad fydd yn cael ei fonitro yn ôl y drefn Herio a Chefnogi Perfformiad. Bydd modd mesur y nifer cwynion rydym yn derbyn ar gyfer marciau ffordd ac edrych ar ein hamser ymateb i ddiffygion sy'n deillio o farciau ffordd diffygiol.

5. Ymgynghori

Mae'r mater yma wedi deillio o bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chynghorwyr. Mae ein staff mewnol yn ymwybodol o fwriad y gwasanaeth i symud i ffwrdd o fod yn llwyr ddibynnol ar gontractwyr allanol ar gyfer gwaith gosod llinellau ffordd.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

6.1 A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Rydym wedi ystyried yr ymholiadau/cwynion rydym wedi derbyn gan y cyhoedd am farciau ffordd. Mae cyfarfodydd cydweithio gyda'r Adran Amgylchedd wedi cymryd lle a hefyd wedi amlygu'r broblem. Mae Adolygiad Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd ar y gweill a bu cyfle i staff nodi eu sylwadau am y gwasanaeth lle roedd cefnogaeth i edrych ar gwblhau mwy o'r gwaith yn fewnol.

6.2 A ydych wedi ystyried cydweithio?

Mae ystyriaeth wedi ei roi i gyd-weithio drwy gynnig y gwasanaeth newydd i Asiantaeth Cefnffyrdd ac Awdurdodau Lleol cyfagos. Mae ACGChC eisoes wedi dangos cefnogaeth i'r syniad ac y buasent yn ystyried ein comisiynu i gwblhau gwaith ar eu rhan.

6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethgu yn y dyfodol?

Bydd y gwasanaeth yn monitro eu rhaglenni gwaith yn barhaus a bydd mesur rheoli perfformiad yn cael ei ychwanegu er mwyn mesur a yw y nifer cwynion rydym yn dderbyn am farciau ffordd yn gostwng.

6.4 Sut ydych wedi ystyried yr hirdymor a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Rhagwelir bydd y galw am y gwasanaeth yn hirdymor yn parhau yn debyg i'r hyn ydyw ar hyn o bryd.

6.5 Er mwyn sicrhau integreiddio, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Fel y nodwyd byddai'r buddsoddiad yma am gynnig cyfleoedd i'r Cyngor allu cyd-weithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos ac yr ACGChC. Bydd hyn yn ei dro yn creu cyfle i ddenu incwm ychwanegol i'r Cyngor.

7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn mynnu bod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol gymunedau.

Mae'r Adran eisoes wedi creu asesiad effaith. Gweler **Atodiad B**

8. Camau Nesaf

- Derbyn sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu ar y trefniadau presennol ar gyfer cynnal ac ail-osod marciau ffordd.
- Bwrw ymlaen i brynu ail becyn cyfarpar gosod â llaw er mwyn cynyddu gallu'r gwasanaeth a gwella amseroedd ymateb ar draws y sir.
- Parhau i weithio gyda'r contractwyr presennol i geisio gwella amserlenni cyflawni gwaith marcio ffordd lle bo hynny'n bosibl.
- Cwblhau'r achos busnes ar gyfer buddsoddi mewn cerbyd marcio ffordd bwrpasol, gan gynnwys asesiad o'r costau, manteision, risgiau a chyfleoedd posibl i gynhyrchu incwm.
- Cyflwyno cais Buddsoddi i Arbed i ystyried y buddsoddiad arfaethedig a'r manteision disgwyledig i'r gwasanaeth a thrigolion Gwynedd.
- Datblygu trefniadau monitro perfformiad i fesur llwyddiant unrhyw drefniadau newydd
- Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu ar gynnydd y cynllun a chanlyniadau'r trefniadau newydd maes o law.

Gwybodaeth Cefndir

- *Well-managed Highways Infrastructure : A Code of Practice (2016)*
- Deddf Priffyrdd 1980

Atodiadau

Atodiad A – Enghreifftiau o Farciau Ffordd

Atodiad B – Asesiad Effaith